

ETHOLIADAU'R SWYDDOGION 2022 RHEOLAU AR GYFER YMGEISWYR



#ETHOLIADAUABER

POBL ALLWEDDOL

Al Rhodes
Dirprwy Swyddog Etholiadau

Y Dirprwy Swyddog Etholiadau (DSE) yw eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw gwestiwn neu gŵyn. Bydd y DSE yn cyfeirio materion at Swyddog Etholiadau UCM am ddyfarniad. I gysylltu â'r DSE, e-bostiwch undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

Swyddog Etholiadau UCM

Mae'r Swyddog Etholiadau'n (SE) goruchwylio'r broses etholiadol gan sicrhau ei bod yn deg ac agored.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Cyfnod sefyll yn dechrau: dydd Sadwrn 1af Ionawr
Cyfnod Sefyll yn Dod i Ben: 12pm dydd Mawrth 22ain Chwefror
Sesiwn Ragwybodaeth i Ymgeiswyr: 6pm dydd Mawrth 22ain Chwefror
Dyddiad cau Cyhoeddusrwydd: 12pm dydd Mercher 23ain Chwefror
Pleidleisio'n Agor: 10am dydd Llun 14eg Mawrth
Pleidleisio'n Cau: 3pm dydd Gwener 18fed Mawrth
Canlyniadau: 7pm dydd Gwener 13eg Mawrth

YMGEISIO

1. I ymgeisio, rhaid i chi gwblhau'r ffurflen ymgeisio ar-lein yn www.umaber.co.uk/etholiadau/ymgeisio erbyn 12pm, 22ain Chwefror.
2. I ymgeisio, rhaid i chi gynnwys eich enw, eich rhif myfyriwr a'ch e-bost yn y brifysgol.
3. Bydd yr Undeb yn trefnu Sesiwn Ragwybodaeth ar gyfer Ymgeiswyr pan ddaw'r cyfnod enwebu i ben yn Undeb y Myfyrwyr. Yn y sesiwn ragwybodaeth, bydd y DSE yn manylu ar y rheolau etholiadol ac yn darparu ymgeiswyr â'r wybodaeth ddiweddaraf. Rhaid i'r rheiny sy'n methu â mynychu'r cyfarfod hwn sicrhau eu bod yn trefnu siarad â'r DSE cyn dechrau ymgyrchu.

YMGYRCHU

1. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am weithredoedd ymgyrchwyr sy'n cefnogi eu hymgyrch i gael eu hethol; dyma'r hyn a elwir yn dîm ymgyrchu. Diffiniad ymgyrchydd yw rhywun yr ystyrir iddo fod yn gweithredu ar ran ymgeisydd i hybu etholiad yr ymgeisydd hwnnw.
2. Rhaid i ymgeiswyr gymryd pob camau rhesymol i sicrhau bod yr hyn mae eu hymgyrchwyr yn ei wneud yn cydymffurfio â rheolau'r ymgyrch, a rhaid iddynt fod yn gallu dangos hyn pe bai cwyn yn cael ei wneud yn eu herbyn.
3. Ni ddylai ymgeiswyr a'u tîm ymgyrchu ond ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu y gallai eraill gael yr un cyfle i'w gwneud.
4. Dylai ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr ymddwyn mewn ffordd sy'n parchu eraill, ac ni ddylent gymryd rhan mewn ymddygiad sy'n fygythiol, yn aflonyddu neu'n peryglu llesiant a diogelwch eraill.
5. Ni chaniateir i ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr at ddibenion ymgyrchu ac eithrio gyda chaniatad penodol y DSE.
6. Ni chaiff ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr ddatgan eu bod nhw (neu'r ymgeisydd maen nhw'n ei gefnogi) wedi cael sêl bendith yr Undeb nac aelodau unigol o staff yr Undeb.
7. Ni chaiff ymgeiswyr nau'u hymgyrchwyr fwrw pleidlais, na cheisio bwrw pleidlais, ar ran myfyriwr arall.
8. Gwaherddir llwgrwobrwyo pleidleiswyr fel rhan o unrhyw ymgyrch.

9. Rhaid i ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr gadw at yr holl ddeddfau a rheolau ehangach sy'n bodoli eisoes sy'n llywodraethu ymddygiad unigolion a myfyrwyr.

CYLLIDEB

1. Caiff cyllidebau ymgyrchu eu gosod gan y DSE, a chânt eu cyhoeddi yn y sesiwn ragwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr. Caiff y costau hyn eu had-dalu gan yr Undeb pan fo'r ymgeisydd yn cyflwyno derbynebau.
2. Ni chaiff ymgeiswyr wario mwy na'r hyn a ganiateir o fewn eu cyllideb.
3. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno rhestr ysgrifenedig o gostau eu hymgyrch, ynghyd â derbynebau cyfatebol, i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau o fewn un awr wedi diwedd y bleidlais. Os nad yw ymgeiswyr yn gwario unrhyw arian yn ystod eu hymgyrch, rhaid gwneud hynny'n eglur yn y cyflwyniad.
4. Rhaid i unrhyw ddeunydd a ddefnyddir gan ymgeisydd gael ei gynnwys yn eu datganiad o wariant, ynghyd â derbynebau neu amcangyfrif rhesymol o bris y farchnad.
5. Rhaid i bob eitem heb ei phrynu, ond a ddefnyddir at ddibenion ymgyrchu, gael ei phrisio gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.
6. Yr eithriad i'r rheol hon yw defnyddiau ac adnoddau sydd ar gael i bawb, e.e. y defnydd di-dâl o safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

Y CYFRIF A'R CYHOEDDIAD

1. Arolygir y cyfrif gan y Swyddog Dirprwy Etholiadau neu'r sawl a enwebir ganddo.
2. Ni ddaw canlyniad y bleidlais i rym hyd nes bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau wedi cadarnhau bod y canlyniad yn deillio o weithdrefn rydd a theg.

CWYNIION AC APELIADAU

1. Bydd y Swyddog Etholiadau a'r DSE yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ddehongli'r rheolau hyn ac Is-ddeddfau'r Undeb.
2. Er mwyn i gŵyn ynglŷn ag unrhyw weithred yr honnir iddi dorri'r Is-ddeddfau gael ei hymchwilio, rhaid ei gwneud mewn ysgrifen i'r DSE, gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein gywir. Rhaid i'r gŵyn gyfeirio'n benodol at y rheolau yr honnir iddynt gael eu torri.
3. Bydd y DSE yn ymchwilio i gwynion ac yn cyfeirio materion at y SE am benderfyniad.
4. Gall y SE benderfynu gweithredu ar sail canlyniad penderfyniadau. Gall hyn gynnwys atal yr etholiad ar gyfer swyddi penodol, cyfeirio'r mater at weithdrefnau disgyblu'r Undeb neu'r Brifysgol am ddyfarniad, neu ddiarddel ymgeiswyr.
5. Bydd dyfarniadau'r Swyddog Etholiadau'n dod i rym ar unwaith.
6. Rhaid i bob cwyn dod i law cyn dechrau'r cyfrif, a heb fod yn ddiweddarach nag un awr ar ôl cau'r bleidlais.
7. Rhaid i gwynion ynglŷn â'r cyfrif gael eu cyflwyno mewn ysgrifen, gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein gywir, i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau cyn cyhoeddi'r canlyniadau.
8. Rhaid gwneud apêl mewn ysgrifen i'r DSE cyn hanner-dydd fan pellaf ar y diwrnod ar ôl i benderfyniad y Swyddog Etholiadau gael ei gyfathrebu i'r ymgeisydd hwnnw.
9. Rhaid i apelïadau nodi'n glir y rhesymau sydd y tu ôl iddynt, gan gyfeirio at un o'r canlynol: bod dehongliad o'r rheolau etholiadol uchod yn afresymol, na ddilynwyd y weithdrefn gywir, bod y SE neu'r DSE wedi dangos rhagfarn, tuedd neu wedi methu rhoi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth oedd ar gael.

Mae rhestr fanwl o'r rheolau a rheoliadau sy'n perthyn i etholiadau i'w gweld yn yr Is-ddeddfau Etholiadol, sydd ar gael ar wefan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth.